



Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol
De-Orllewin Cymru
South West Wales
Regional Contractors Framework

CHWEFROR 2021

Cyfes 1, Rhifyn 4



GWAITH SYDD AR Y GWEILL A GOBRAU

Ar 31 Ionawr 2021, mae SWWRCF yn falch o gadarnhau bod

- ⇒ **24** o contractau wedi'u dyfarnu ledled Rhanbarth De-orllewin Cymru
- ⇒ Gwerth **oddeutu £69 miliwn** o gyfleoedd gwaith ers mis Chwefror 2020
- ⇒ **31** cyfleoedd heb eu datgelir ar hyn o bryd ar y gweill
- ⇒ Amcangyfrifir y bydd oddeutu **£476 miliwn** o waith ar gyfer y 3 blynedd nesaf

CNPT YNNI-EFFEITHLON

Gwnaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot dendro prosiect o dan SWWRCF15 a ddyfarnwyd i Morgan Sindall, gyda chyllideb amcangyfrifedig o £8 miliwn. Dechreuodd y cynllun ar y safle ym mis Hydref 2020 a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2021. Bydd Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe ynni-effeithlon newydd ym Mharc Ynni Baglan yn adeilad hybrid gydag oddeutu 2,500m² a fydd yn darparu ystod o swyddfeydd hyblyg o ansawdd uchel i gefnogi twf cwmnïau newydd a busnesau brodorol gan ganolbwyntio ar y sectorau arloesi ac ymchwil a datblygu, ond nid yn gyfyngedig i hynny. Mae'r ganolfan dechnoleg yn rhan o raglen Cefnogi Arloesedd a Thwff Carbon Isel Bargaen Ddinesig yr Awdurdod Lleol, sydd â'r nod o sicrhau twf economaidd, carbon isel, cynaliadwy a chynhwysol ar gyfer y rhanbarth. Bydd dyluniad y Ganolfan Dechnoleg yn cynnwys deunyddiau adeiladu i'w sefydlu fel 'adeilad yn orsaf bŵer' ac yn dangos sut y gellir ymgorffori'r dechnoleg hon mewn adeilad diwydiannol.



MANTEISION I BRYNIAGO

Mae Cyngor Abertawe wedi llwyddo i ddyfarnu contract i T Richard Jones (Betws) Ltd drwy SWWRCF2020, mewn perthynas ag estyniad o oddeutu 100m² er mwyn darparu ystafell ddosbarth newydd yn YGG Bryniago. Y prosiect hwn yn cychwyn ym mis Mawrth 2021, gyda'r bwriad o'i gwblhau yn ystod haf 2021, yn barod ar gyfer y tymor ysgol newydd ym mis Medi 2021. Bydd y prosiect yn cynnwys toiledau newydd i ddisgyblion, storffeydd ac ardal cysylltu coridorau, a bydd gwaith tirlunio allanol yn cael ei wneud hefyd. Wedi'i ariannu'n llawn gan grant cyfalaf Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod Llywodraeth Cymru, bydd yr ychwanegiad hwn i'r ysgol yn cyfrannu at gefnogi'r lleihad ym maint dosbarthiadau babanod i fod yn llai na 29 ac yn codi safonau.

TENDR AM TIERS PLACE, TUDOR CROSS



Roedd Tudor Place yn ystad fechan o 10 tŷ pâr i gyd yn eiddo i Gyngor Sir Penfro. Roedd yr eiddo parod a godwyd ar ôl y rhyfel wedi dod i ddiwedd eu hoes ac roedd angen atgyweiriadau strwythurol sylweddol a gwelliannau thermol i'w galluogi i barhau i'w defnyddio. Penderfynwyd felly ddymchwel yr adeilad ac ail-

ddatblygu'r safle gyda chartrefi fforddiadwy newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, a gynlluniwyd i ragori ar Ofynion Ansawdd Dylunio Llywodraeth Cymru ac i gyrraedd safon 'Aur' Dylunio. Bydd gan bob un o'r eiddo system drydan yn unig ar gyfer gwres a dŵr poeth. Bydd paneli PV, pypiau gwres ffynhonnell aer a storfa batri unigol ar gyfer pob eiddo wedi'u hategu gan drydan o'r prif bibell. Bydd darpariaeth gwefru ceir trydan hefyd yn cael ei chynnwys yn y datblygiad. Mae Cyngor Sir Penfro wedi datblygu'r cynllun i gam 3 RIBA 'Dylunio a Ddatblygwyd' cyn tendro'r gwaith drwy SWWRCF gyda gofyniad ar y Prif Contractwr i ddatblygu'r dyluniad drwy ddylunio technegol i adeiladu. Bydd cyflwyniadau tendro yn cael eu dychwelyd erbyn diwedd Ionawr 2021, gyda'r bwriad o'u dyfarnu erbyn diwedd mis Chwefror 2021. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle ddiwedd gwanwyn 2021, gyda rhaglen adeiladu 10 mis.



ADNEWYDDU EIDDO GWAG

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi llwyddo i benodi John Weaver Contractors drwy SWWRCF2020 i gwblhau'r gwaith o adnewyddu eiddo tai cyngor gwag, er mwyn eu hadfywio a sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin unwaith eto. Mae'r 15 eiddo, a oedd yn wag, wedi'u hadnewyddu yn unol ag amserlen fer, ac roedd 2 eiddo wedi'u meddiannu cyn Nadolig 2020.

PENODI C WYNNE & SONS LTD

Mae contractwr fframwaith newydd C Wynne & Sons Ltd wedi llwyddo i ennill un dendr o dan SWWRCF2020. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal ymarferion mini-gystadleuaeth helaeth o dan y fframwaith, a C Wynne & Sons Ltd yw'r contractwr a ffefrir ar gynllun ysgol cyffrous yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae'r gynllun yn cael eu hariannu gan yr Awdurdodau Lleol a chan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o drawsnewid darpariaeth addysg i adnoddau sy'n effeithiol yn strategol ac yn weithredol ac sy'n bodloni anghenion yn awr ac yn y dyfodol.

CYSYLLTWCH Â NI



Dylunio Eiddo, Parc Myrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1HQ



TSSWWRCF@carmarthenshire.gov.uk



Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-Orllewin Cymru